Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Polisïau a Gweithdrefnau

Er mwyn sicrhau bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW) yn cyflawni ei nodau, ei amcanion, ei gyfrifoldebau a'i ofynion cyfreithiol mewn modd tryloyw a chyson, rydym yn datblygu ac yn disgrifio ein "ffyrdd o weithio" mewn polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill.

Mae polisïau'n disgrifio egwyddorion arweiniol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sy'n sail i'n penderfyniadau, ein hymddygiad a'n gweithredoedd ar gyfer popeth rydyn ni'n ei wneud.

Mae gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill yn trosi'r egwyddorion hyn yn gyfarwyddiadau neu ganllawiau manylach gan gynnwys cyfrifoldebau unigol.

Mae'r dudalen hon yn rhoi trosolwg o rai o'n polisïau allweddol.

## 1. Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes y cwmni

**<u>Llywodraethu Corfforaethol</u>**

<u>Polisi Gwyngalchu Arian</u>

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru rwymedigaeth gyfreithiol i roi gwybod am unrhyw amheuon ynghylch gwyngalchu arian, gan ein bod yn darparu gwasanaethau cwmni (e.e. darparu swyddfa gofrestredig).

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i weithredu'n broffesiynol, yn ddidwyll ac yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud ag atal gwyngalchu arian. Mae ein Polisi Gwyngalchu Arian yn nodi ein cyfrifoldebau, a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gweithio i ni, wrth gyflawni ein rhwymedigaethau o ran atal gwyngalchu arian; ac mae'n darparu gwybodaeth ac arweiniad ar sut i adnabod risgiau, a phryd i roi gwybod am amheuon.

<u>Polisi Gwrthlygredd a Llwgrwobrwyo</u>

Mae'n bolisi gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i gynnal pob busnes mewn ffordd onest a moesegol. Rydym yn defnyddio dull dim goddefgarwch tuag at lwgrwobrwyo a llygredigaeth ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob gweithiwr yn gweithredu'n broffesiynol, yn deg ac yn ddidwyll ym mhob cyswllt a pherthynas fusnes lle bynnag y maent yn gweithredu ac yn gweithredu ac yn gorfodi systemau effeithiol i atal llwgrwobrwyo.

Bydd yr Hwb yn cynnal yr holl gyfreithiau sy'n berthnasol i atal llwgrwobrwyo a llygru yn yr holl awdurdodaethau y mae'r cwmni'n gweithredu ynddynt.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i weithwyr yn arsylwi ac yn cynnal trefniadau i atal llwgrwobrwyo a llygredigaeth, ac yn meddu ar ymwybyddiaeth lawn o'r prosesau sydd i'w dilyn i godi pryder.

Polisi Gwrth-Dwyll

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu ei enw da, ei refeniw, ei asedau a'i wybodaeth rhag unrhyw ymdrechion i dwyllo neu ymddygiad amhriodol arall gan weithwyr neu drydydd partïon. Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer gwahardd, cydnabod, adrodd ac ymchwilio i achosion posibl o dwyll, llygredd, camddehongli ac anghysondebau tebyg eraill.

Rydym yn sicrhau bod holl brosesau ariannol a gweinyddol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael eu cyflawni a'u hadrodd yn onest, yn gywir, yn dryloyw ac yn atebol, a bod pob penderfyniad yn cael ei wneud yn wrthrychol a heb fod o ddiddordeb personol. Nid yw'r Hwb yn cymeradwyo unrhyw ymddygiad nad yw'n bodloni'r egwyddorion hyn.

Mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb am roi'r egwyddorion hyn ar waith ac am roi gwybod am unrhyw achosion o dorri'r rheolau y maent yn eu canfod.

Datgelu Gwrthdaro a Datgan a Rheoli Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd

Mae'r Hwb yn agored, yn dryloyw ac yn onest yn y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod ei weithwyr (a'i Gyfarwyddwyr Anweithredol) yn ymarfer y safonau uchaf o ran ymddygiad.

Mae'r polisi hwn yn ategu'r polisi atal twyll a llwgrwobrwyo (gweler uchod) ac yn nodi disgwyliadau penodol yng nghyswllt buddiannau, rhoddion, lletygarwch a nawdd, yn unol ag Egwyddorion Saith Bywyd Cyhoeddus (Nolan). Mae hyn yn cynnwys peidio â cheisio neu dderbyn yn fwriadol, cyfraddau ffafriol neu fuddion o fath arall, bod yn ddiduedd ac yn onest wrth gynnal eu busnes swyddogol, defnyddio arian cyhoeddus er budd gorau'r cwmni, ceisio sicrhau Gwerth am Arian bob amser, peidio â cham-drin/defnyddio eu swydd swyddogol er budd personol neu er budd teulu neu ffrindiau, a pheidio â cheisio mantais neu hyrwyddo busnes preifat neu fuddiannau eraill wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Mae gennym hefyd fesurau diogelu ar waith yn erbyn gwrthdaro neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau preifat a dyletswyddau cyhoeddus aelodau o gyflogeion a Chyfarwyddwyr Anweithredol. Mae gennym drefniadau ar waith hefyd i reoli gwrthdaro unwaith y bydd wedi'i nodi.

Polisi Chwythu'r Chwiban

Un agwedd bwysig ar atebolrwydd a thryloywder yw darparu dull i alluogi gweithwyr ac aelodau eraill o'r Cwmni i leisio pryderon mewn modd cyfrifol ac effeithiol. Dylid rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth o gamymddwyn difrifol neu ddrwgweithredu cyn gynted ag y bo modd.

Pan fydd unigolyn yn dod o hyd i wybodaeth y mae'n credu sy'n dangos camymarfer neu gamweithredu difrifol yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, yna gellir datgelu'r wybodaeth hon yn fewnol heb ofni dial. Mae gennym drefniadau i alluogi i hyn gael ei wneud yn annibynnol ar y rheolwyr llinell.

Polisi Rheoli Risg

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod na all unrhyw sefydliad weithredu mewn amgylchedd di-risg. Fodd bynnag, nid yw risg yn rhywbeth i'w ofni, oherwydd os caiff ei adnabod, ei deall a'i rheoli'n iawn, gellir ei lliniaru'n effeithiol ac arwain at fanteision a chyfleoedd i'r Cwmni, ei weithwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Rydym wedi ymrwymo i reoli risg yn effeithiol ar bob lefel a byddwn yn datblygu ac yn cynnal y systemau priodol i alluogi hyn.

Rydym yn cynnal System Rheoli Risg fel elfen graidd o'n system rheolaeth fewnol. Mae ein RMS yn galluogi ac yn grymuso gweithwyr i adnabod, asesu, rheoli a, lle bo'n briodol, manteisio ar risgiau er budd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Mae rhagor o fanylion am reoli risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gael yn ein hadroddiad blynyddol.

Polisi Diogelwch

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod yr angen am fesurau diogelwch cadarn – ffisegol, electronig a dogfennol. Mae hyn yn cynnwys rheoli asedau gwybodaeth yn ddiogel drwy gadw cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd ein gwybodaeth fusnes.

Mae ein polisïau'n nodi ein trefniadau sicrwydd a diogelwch gwybodaeth, yn ogystal â rhoi cyngor ac arweiniad i bob gweithiwr.

Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb i'r amgylchedd. Rydym yn ceisio gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus fel rhan annatod o'n gwerthoedd, ein strategaeth fusnes a'n cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i leihau ei effaith amgylcheddol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol hyn, gan gefnogi rhan Llywodraeth Cymru yn yr ymdrech fyd-eang i leihau effaith newid yn yr hinsawdd, yn enwedig ei huchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Mae cyd-destun *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* yn rhoi cyd-destun i'n hymrwymiad – y saith nod llesiant, y pum ffordd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Cynllunio Parhad Busnes a Seibergadernid

Mae parhad busnes yn golygu bod sefydliad yn barod i ymateb i sefyllfaoedd, digwyddiadau a digwyddiadau niweidiol er mwyn iddo allu parhau i weithredu gyda chyn lleied o darfu â phosibl. Mae hyn yn golygu adnabod a chydnabod bygythiadau posibl a dadansoddi pa effaith y gallent ei chael ar weithrediadau busnes a darparu gwasanaethau.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi sefydlu trefniadau parhad busnes, gan gynnwys Cynllun Parhad Busnes sy'n amlinellu'r egwyddorion, y dull gweithredu a'r tybiaethau sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a chynnal a chadw'r trefniadau hyn yn barhaus.

Un o'r prif fygythiadau i barhad busnes yw ymosodiad seiber. Gall ymosodiadau seiber ddwysáu'n gyflym ac amharu ar fusnes yn sylweddol gyda'r potensial i achosi niwed tymor byr a thymor hir i asedau digidol, gweithrediadau busnes a pharhad sefydliad.

Mae ein Cynllun Seibergadernid yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu asedau digidol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, o ran systemau diogelwch digidol (meddalwedd diogelu gwrth-ddrwgwedd) a pholisïau / prosesau cymorth, i alluogi eu goruchwylio, eu defnyddio a'u gwella'n barhaus, ac i baratoi'r sefydliad ar gyfer ymosodiad seiber.

Mae'r ddau Gynllun yn nodi'r broses ymateb ar gyfer rheoli parhad busnes a digwyddiadau seiber.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Polisi Diogelu Data

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i drin yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys *Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016* yr UE, a *Deddf Diogelu Data 2018*.

Mae ein Polisi yn nodi'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn trin data yn unol â'r rheoliadau a'r arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys:

- Prosesu gwybodaeth bersonol dim ond pan fydd hynny'n gwbl angenrheidiol at ddibenion cyfreithiol a rheoleiddiol, neu at ddibenion dilys y sefydliad.
- Prosesu dim ond yr isafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen i gyflawni'r dibenion hyn.
- Darparu gwybodaeth glir i bobl am sut y gellir defnyddio eu gwybodaeth bersonol a chan bwy.
- Dim ond prosesu gwybodaeth bersonol berthnasol a digonol.
- Prosesu gwybodaeth bersonol yn deg ac yn gyfreithlon.
- Cadw rhestr wedi'i dogfennu o gategorïau o wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu gan y sefydliad.
- Cadw gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn gyfredol.

- Cadw gwybodaeth bersonol dim ond am gyn hired ag sy'n angenrheidiol am resymau cytundebol, cyfreithiol neu reoleiddiol.
- Sicrhau bod data'n cael ei waredu'n amserol ac yn briodol.
- Parchu hawl pobl naturiol o ran eu data.

Mae ein polisi a'n gweithdrefnau ategol yn seiliedig ar yr egwyddorion diogelu data. Mae manylion am hyn i'w gweld yn gyhoeddus yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Mae'r trefniadau diogelu data ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais i ymuno â Thîm Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi'u hamlinellu yn yr hysbysiad preifatrwydd i ymgeiswyr.

## Polisi Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth

Mae angen i'r Hwb wybod pa wybodaeth sydd ganddo, ble mae'n cael ei chadw, pa mor hen yw hi, bod angen o ran busnes i'w chadw o hyd, a sicrhau ei bod yn dystiolaeth ddibynadwy. Mae hyn yn ein galluogi i gydymffurfio â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae prosesau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn caniatáu mynediad i'r rheini sydd angen gweld yr wybodaeth hon, gan atal pobl eraill rhag cael mynediad. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd yn gallu adnabod gwybodaeth bersonol, gwybod gyda phwy mae'n cael ei rhannu, a chael gwared ar wybodaeth nad oes gennym hawl i'w dal mwyach.

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ac yn agored am y gwaith rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n gwario arian cyhoeddus.

Fel Corff Hyd Braich Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sicrhau bod ganddo brosesau ar waith i'n galluogi i ymateb i geisiadau am fynediad at wybodaeth. Rydyn ni hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi gwybodaeth yn ein cynllun cyhoeddi.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein tudalen we Rhyddid Gwybodaeth.

## Diogelwch Gwybodaeth

Rydym yn rheoli'r gwaith o reoli ein hasedau gwybodaeth yn ddiogel drwy gadw cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd ein gwybodaeth fusnes.

Rydym yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw. Rydym yn creu ac yn cynnal lefel o ymwybyddiaeth o'r angen am wybodaeth.

Mae gennym brosesau cadarn o ran gwybodaeth/data, systemau gwybodaeth, rhwydweithiau, cymwysiadau a lleoliadau.

## Cyllid a Chaffael

### Rheoliadau Ariannol

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru reoliadau ariannol sy'n ceisio cynnal hyfywedd ariannol, sicrhau gwerth am arian, cyflawni ein cyfrifoldeb dros ddarparu rheolaeth ariannol effeithiol dros ddefnyddio arian cyhoeddus, sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth berthnasol a diogelu asedau'r cwmni.

Mae Dogfen Fframwaith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn darparu'r fframwaith gweithredu y mae'r rheoliadau ariannol yn seiliedig arno.

### Polisi Caffael

Mae gweithgarwch caffael yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn seiliedig ar fframwaith rheoleiddio sy'n cynnwys Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Datganiad Polisi Caffael Cymru a Pholisi Caffael mewnol i sicrhau bod prosesau safonol yn cael eu mabwysiadu a'u defnyddio sy'n agored, yn dryloyw, yn gymesur ac sy'n lleihau cymhlethdod ac amserlenni costau i gyflenwyr.

Rydym yn sicrhau bod ein prosesau ar gyfer prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn deg ac yn sicrhau gwerth am arian. Rydym yn sicrhau cod ymddygiad penodol ar gyfer y broses gaffael, lle mae pob cyflenwr addas yn cael ei drin yn gyfartal ac yn deg. Er mwyn cyflawni hyn, oni bai fod rhesymau cryf i'r gwrthwyneb, rhaid i'r holl weithgarwch caffael gael ei gynnal yn unol â'r trothwyon canlynol:

- y ceir isafswm o ddyfynbrisiau cystadleuol ar gyfer pob pryniant o dan £25,000 (heb gynnwys TAW), yn unol â'r Trothwyon Caffael mewnol
- rhaid i bob pryniant dros £25,000 (heb gynnwys TAW) gael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru.

Rydym hefyd yn sicrhau bod gweithgarwch caffael yn cefnogi'r nodau a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

## Iechyd a Diogelwch

### Polisi Iechyd a Diogelwch

Polisi Iechyd a Diogelwch Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol a chaniatáu i'w weithwyr, ei ymwelwyr a'i gontractwyr ymgymryd â'u gweithgareddau, beth bynnag fo'u lleoliad, heb amharu ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles.

Rydym wedi sefydlu'r system a ddefnyddiwn i reoli iechyd a diogelwch, sy'n cynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth, adnoddau digonol a hyfforddiant i helpu i sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd yn cydnabod manteision diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ac mae'n annog pawb i gofleidio uchelgais ar y cyd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru o weithio mewn amgylchedd heb ddamweiniau.

Mae ein trefniadau iechyd a diogelwch sefydliadol yn cyflawni rhan o ddyletswyddau'r cwmni dan *Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974* a *Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.*

## Yr Iaith Gymraeg

### Polisi Iaith Gymraeg

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i fynd ati'n weithredol i hwyluso ac annog defnyddio'r Gymraeg yn y sefydliad ac yn ein gweithgareddau a'n gwasanaethau allanol.

Byddwn hefyd yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a sefydlodd fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio ag un neu ragor o safonau ymddygiad o ran y Gymraeg.

Gwelwn y polisi hwn fel rhan o ymrwymiad blaengar ac arloesol o fewn y gymuned Gwyddorau Bywyd i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog. Ein nod hefyd yw codi ein proffil a'n henw da corfforaethol a chael ein cydnabod gan siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd (gan gynnwys yn rhyngwladol) fel enghraifft dda o sefydliad cyhoeddus yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y tudalennau Iaith Gymraeg ar ein gwefan.

### Polisi Cwynion am y Gymraeg

Rydym wedi sefydlu polisi penodol i dderbyn a mynd i'r afael ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y tudalennau Iaith Gymraeg ar ein gwefan.

## Cyfathrebu

### Polisi Cyfryngau

Mae'r cyfryngau'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hybu a diogelu enw da Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan helpu i gyfleu ei nodau strategol a chyflawni blaenoriaethau busnes.

Mae meithrin perthynas gadarnhaol ar draws amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau (ar-lein ac all-lein) yn rhan hollbwysig o gyflwyno neges a phwrpas Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan barhau yn adnodd da i ysbrydoli ac annog arloesedd ar draws y sector. Rydyn ni'n sicrhau bod dull agored, cadarnhaol a chyson yn cael ei ddefnyddio wrth gysylltu â'r cyfryngau.

# 2. Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer darparu gwasanaethau

Polisi a Threfn Cwynion

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddelio'n effeithiol ag unrhyw bryderon neu gwynion sydd gan unrhyw un am ei wasanaethau.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y tudalennau Polisi Cwynion ar ein gwefan.

# 3. Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyflogi staff

Polisi Recriwtio a Dethol

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod mai ei weithwyr yw'r ased pwysicaf a bod ei ddyfodol yn dibynnu ar gyfraniad sylweddol ganddynt. Felly, mae'n hanfodol bod y Cwmni'n annog yr arferion gorau ar gyfer recriwtio a dethol pob gweithiwr.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i gynnal safonau proffesiynol a sicrhau bod ei weithdrefnau recriwtio a dethol yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Fel arfer, bydd swyddi'n agored i gystadleuaeth ac yn cael eu hysbysebu fel y bo'n briodol. Bydd ymgeiswyr yn cael eu dewis yn ôl y lefel briodol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar gyfer y swydd, beth bynnag fo'u hil, eu crefydd, eu cred, eu lliw, eu tarddiad ethnig, eu cenedligrwydd, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoedran, eu hanabledd, eu statws priodasol neu eu statws cymdeithasol.

Polisi Urddas yn y Gweithle

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith heb aflonyddu a bwlio, lle mae pawb yn cael ei drin gydag urddas a pharch. Gall harasio a bwlio arwain at ganlyniadau difrifol iawn i unigolion ac i'r Cwmni.

Gall harasio neu fwlio wneud pobl yn anhapus, gall achosi straen iddynt ac effeithio ar eu hiechyd a'u perthnasau teuluol a chymdeithasol, gall effeithio ar eu perfformiad yn y gwaith a gallai beri iddynt adael eu swydd. Gall achosion difrifol o aflonyddu a bwlio hyd yn oed arwain at salwch meddwl a hunanladdiad.

Gall yr effeithiau ar y Cwmni gynnwys colli morâl, perfformiad gwaith gwael, mwy o drosiant staff, hawliadau cyfreithiol a niwed i enw da'r Cwmni.

Gallai gweithwyr sy'n cael eu dyfarnu'n euog o aflonyddu neu fwlio wynebu cosbau disgyblu, hyd at ac yn cynnwys diswyddo, fod yn atebol yn bersonol i dalu iawndal mewn hawliadau cyfreithiol, a gallant ganfod bod hyn wedi cael effaith andwyol ar eu perthnasoedd teuluol a chymdeithasol eu hunain. Gall harasio difrifol fod yn drosedd. Ni fydd y Cwmni'n goddef bwlio ac aflonyddu o unrhyw fath. Ymchwilir i bob honiad o fwlio ac

aflonyddu ac, os yw'n briodol, cymerir camau disgyblu. Ni fydd y Cwmni ychwaith yn goddef erlid person am wneud honiadau o fwlio neu aflonyddu'n ddidwyll nac am gefnogi rhywun i wneud cwyn o'r fath. Mae erledigaeth yn drosedd disgyblu.

## Polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith lle gall pob unigolyn wneud y defnydd gorau o'u sgiliau, heb wahaniaethu neu aflonyddu, a lle mae pob penderfyniad yn seiliedig ar deilyngdod.

Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr ar sail oed, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartner sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol (nodweddion gwarchodedig).

Mae egwyddorion peidio â gwahaniaethu a chyfle cyfartal hefyd yn berthnasol i'r ffordd y mae gweithwyr yn trin ymwelwyr, ymgeiswyr am swyddi, cleientiaid, cwsmeriaid, cyflenwyr a chyn-weithwyr.

Mae hyn yn berthnasol yn y gweithle, y tu allan i'r gweithle (wrth ddelio â chwsmeriaid, cyflenwyr neu gysylltiadau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith, ac ar dripiau neu ddigwyddiadau cysylltiedig â gwaith gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol).

Mae gan bob gweithiwr ddyletswydd i weithredu'n unol â'r polisi hwn a thrin cydweithwyr ag urddas bob amser, ac i beidio â gwahaniaethu yn erbyn nac aflonyddu ar weithwyr eraill, beth bynnag fo'u statws.

## Polisi Rheoli Straen

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles gweithwyr. Mae'n cydnabod bod straen yn y gweithle yn fater iechyd a diogelwch ac mae'n cydnabod pwysigrwydd adnabod a lleihau'r hyn sy'n achosi straen yn y gwaith.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn bwriadu sicrhau llesiant gweithwyr drwy ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- Sicrhau bod gofynion y swydd yn rhesymol ac yn realistig.
- Sicrhau bod gweithwyr yn cael rhywfaint o ddylanwad ar y ffordd maen nhw'n gwneud eu gwaith.
- Sicrhau nad yw gweithwyr yn dioddef ymddygiad annerbyniol (e.e. bwlio, aflonyddu).
- Sicrhau bod gweithwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y tîm.
- Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cynnwys drwy ymgynghori, diweddariadau, ac ati pryd bynnag y bydd newidiadau yn y swydd neu'r sefydliad.

- Sicrhau bod gweithwyr yn gallu cael gafael ar y cymorth angenrheidiol i'w helpu i reoli unrhyw bwysau gwaith yn effeithiol.
- Sicrhau bod ymatebion cyflym yn cael eu gwneud i unrhyw bryderon a nodwyd.

Polisi Tâl a Buddion

Mae Polisi Tâl a Buddion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf. yn darparu egwyddorion clir ac arweiniol ar gyfer ymrwymiad y Cwmni i dâl a buddion teg, cystadleuol a phriodol i weithwyr.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gwerthfawrogi ymrwymiad anhygoel ein holl weithwyr sy'n helpu i wneud Cymru yn lle o ddewis ar gyfer arloesi ym maes iechyd, gofal a lles. Er mwyn cydnabod a gwobrwyo cyfraniad ein gweithwyr a denu a chadw'r bobl orau sydd ar gael i sicrhau bod ein nodau strategol yn cael eu cyflawni, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ceisio darparu iawndal cystadleuol ac effeithiol.

Mae'r Cwmni'n darparu amrywiaeth o fuddion cyflog a digyflog i apelio at anghenion amrywiol ein tîm ac i wobrwyo aelodau ein tîm am eu cyfraniad at weithgarwch ac arloesedd y Cwmni.

Dyma'r egwyddorion arweiniol ar gyfer strategaeth wobrwyo Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru:

- Darparu model gwobrwyo sy'n gystadleuol â'r rheini sydd â swyddi tebyg mewn cyflogwyr tebyg, mewn marchnadoedd llafur tebyg i ddenu a chadw pobl sydd â'r sgiliau a'r cymhelliant priodol i wneud eu gwaith gorau.
- Sicrhau cystadleurwydd allanol a chydraddoldeb mewnol drwy benderfyniadau gwobrwyo cyson, priodol a chyfrifol, sy'n cyd-fynd â gwerthoedd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- Darparu model gwobrwyo sy'n wirioneddol berthnasol ac yn apelio at anghenion amrywiol ein tîm ac sy'n cydnabod cyfraniad unigol at lwyddiant y cwmni.
- Gweithredu system dâl sy'n hyrwyddo arferion gwobrwyo teg, tryloyw a moesegol, sy'n bodloni rhwymedigaethau deddfwriaethol, ac sy'n cefnogi cyflog byw gwirioneddol, fel y cânt eu diffinio gan y Living Wage Foundation.
- Bod yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol a sicrhau gwerth am arian drwy greu sail ar gyfer penderfyniadau cyflog a dyrannu cyllideb effeithiol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cyflog Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyrff Hyd Braich.

Polisi Gweithio Hyblyg

Mae Gweithio Hyblyg yn cael ei gydnabod fel dull gwerthfawr o wella effeithlonrwydd gweithwyr a fyddai'n croesawu manteision trefniadau gweithio mwy hyblyg, lle bo hyn yn ymarferol. Mae Gweithio Hyblyg yn derm cyffredinol sy'n gallu cynnwys nifer o drefniadau a dulliau gweithio arloesol a all fod o fudd i'r Cwmni a'r gweithwyr drwy hyrwyddo pwysigrwydd cydbwysedd bywyd a gwaith cadarnhaol.

Mae Gweithio Hyblyg yn cael ei gydnabod fel dull gwerthfawr o wella effeithlonrwydd gweithwyr a fyddai'n croesawu manteision trefniadau gweithio mwy hyblyg, lle bo hyn yn ymarferol. Mae Gweithio Hyblyg yn derm cyffredinol sy'n gallu cynnwys nifer o drefniadau a dulliau gweithio arloesol a all fod o fudd i'r Cwmni a'r gweithwyr drwy hyrwyddo pwysigrwydd cydbwysedd bywyd a gwaith cadarnhaol.

Polisi Hyfforddi a Datblygu

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau, arbenigedd a gallu gweithwyr yn awr ac yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau strategol, amcanion (allbynnau, canlyniadau a manteision) y Cwmni a dyheadau gweithwyr unigol o ran swyddi a gyrfaoedd. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod bod datblygu gweithwyr effeithiol nid yn unig yn hanfodol i gyflawni nodau ac uchelgeisiau'r dyfodol ond mae hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddatblygu Cwmni ymatebol, cefnogol sy'n cael ei reoli'n dda.

Nod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw:

- darparu dull rheoledig a chefnogol o ddysgu a datblygu a chanllawiau clir ar sut mae dysgu a datblygu yn gweithio yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr i gyflawni eu tasgau'n fedrus a chydymffurfio a'u datblygu yn unol ag amcanion y busnes.
- nodi'r gofynion corfforaethol safonol y dylai pob gweithiwr eu dilyn a'u rheoli gan reolwyr llinell.
- sicrhau bod pob gweithiwr yn cael cyfle cyfartal i ddysgu a datblygu.
- datblygu diwylliant o gymell, hunan-ddatblygu, cyfranogi ac atebolrwydd personol.

--

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd bolisïau cyflogaeth penodol ar gyfer ei weithwyr yng nghyswllt disgyblu, cwyno, absenoldeb oherwydd salwch, gwyliau blynyddol, absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu a rhieni ar y cyd, a gwella perfformiad.

Mae gan aelodau tîm Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hefyd fynediad at Lawlyfr Gweithwyr. Mae hwn yn rhoi crynodeb o lawer o'r polisïau hyn yn ogystal â gwybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â chyflogaeth.